

COLEG CAMBRIA

# Canllawiau i Ddysgwyr - Deallusrwydd Artiffisial

GOLYGIAD ADDYSG BELLACH

llyfrgell@cambria.ac.uk

# Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

## CANLLAW I DDEFNYDDWYR - COLEG CAMBRIA

### BETH YDY DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL?


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 03 |
| DEFNYDDIAU A CHYFYNGIADAU DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL | 03 |
| FFYRDD Y GALL DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL EICH HELPU CHI GYDA'CH ASTUDIAETHAU | 04 |
| CYFYNGIADAU DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL CYNHYRCHIOL | 04 |


### DEFNYDDIO OFFER DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN EICH GWAITH


| | |
|---|---|
| PWYSIG | 05 |
| DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I DDOD O HYD I WYBODAETH | 05 |
| SUT I WERTHUSO'R YMATEBION YN FEIRNIADOL | 06 |
| SUT I ANNOG DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL CYNHYRCHIOL I FIREINIO'R YMATEBION | 07 |
| DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I GYNORTHWYO EICH SILLAFU A'CH GRAMADEG | 10 |


### UNIONDEB ACADEMAIDD


| | |
|---|---|
| SUT I GYFEIRIO AT OFFER DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN EICH GWAITH | 11 |
| CYDNABOD EICH DEFNYDD O OFFER DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN EICH GWAITH | 12 |


**Os hoffech chi wybod rhagor am sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn eich gwaith, gall tîm eich llyfrgell eich helpu chi: llyfrgell@cambria.ac.uk**

# Beth ydy Deallusrwydd Artiffisial?

COLEG CAMBRIA

## CYFLWYNIAD

Mae Deallusrwydd Artiffisial *(AI: Artificial Intelligence)* yn cyfeirio at systemau ac offer cyfrifiadurol sy'n gallu cyflawni tasgau sy'n dynwared deallusrwydd dynol. Gall hyn gynnwys ysgrifennu testun, cynhyrchu lluniau a fideos, datrys problemau, adnabod lleisiau a chyfieithu ieithoedd. Yn aml caiff y math hwn o AI ei gyfeirio ato fel Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ac mae'n seiliedig ar adnabod patrymau yn hytrach na dehongli'r ystyr neu'r hyn y mae'r geiriau'n ei ddweud mewn gwirionedd.



Mae mwy a mwy o offer AI yn cael eu hymgorffori yn y pecynnau meddalwedd rydyn ni'n eu defnyddio, a byddwch chi'n defnyddio offer AI yn eich addysg a'ch gweithle yn y dyfodol. Wrth i chi ddatblygu eich sgiliau digidol, mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r offer AI hyn yn effeithiol ac yn foesegol, a heb effeithio'n negyddol ar eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o'r pynciau rydych chi'n eu hastudio.

## DEFNYDDIAU A CHYFYNGIADAU AI

Wrth edrych ar ymatebion testun offer AI fel ChatGPT neu Google Bard, mae'n hawdd meddwl fod ganddo lefel o ddealltwriaeth o'r pwnc dan sylw. Mae'n ymddangos ei fod yn prosesu gwybodaeth mewn ffordd feirniadol drwy aralleirio a chrynhoi cynnwys o sawl ffynhonnell i ddatblygu dadl, ond dydy hynny ddim yn wir.

Mae'r technolegau hyn yn gweithio drwy adeiladu set data eang o destunau cyfeirio, sydd wedi dod o erthyglau sydd ar gael ar-lein, llyfrau a thudalennau gwe. Wrth ymateb i awgrym gennych chi, yn syml maen nhw'n dewis y "gair nesaf gorau" yn ystadegol yn seiliedig ar y geiriau a'r brawddegau sydd wedi'u rhoi o'r blaen - wedi'u dylanwadu gan y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi ar ddechrau'r sgwrs. Mewn sawl ffordd, maen nhw'n gweithio fel nodwedd testun rhagfynegol ar ffonau symudol.

# Beth ydy AI?

## FFYRDD Y GALL AI EICH HELPU CHI GYDA'CH ASTUDIAETHAU

- Gwella gramadeg, arddull ysgrifennu a strwythur aseiniadau
- Archwilio i sut mae eich ysgrifennu yn swnio mewn naws gwahanol ac at ddibenion gwahanol
- Crynhoi gwybodaeth fel eich nodiadau dosbarth
- Adolygu a dadansoddi gwybodaeth ysgrifenedig mewn ffordd sy'n berthnasol i chi
- Cynhyrchu cwestiynau ymarfer neu gwis i baratoi ar gyfer arholiadau
- Cyfieithu testun i wahanol ieithoedd
- Cynhyrchu awgrymiadau a syniadau i chi eu datblygu i helpu i oresgyn 'bloc yr awdur'
- Ysgrifennu a dadfygio cod
- Trefnu eich amser astudio
- Cynhyrchu syniadau ar gyfer creu eich delweddau eich hun
- Cynhyrchu delweddau o destun, y gallwch chi eu defnyddio mewn cyflwyniadau

Gallai dibynnu ar AI fel yr unig ffynhonnell o wybodaeth neu ddealltwriaeth yn eich astudiaethau leihau eich gallu i feddwl yn feirniadol a dysgu'n ddwfn. Ni ddylai AI gael ei ddefnyddio i ddargyfeirio cyfleoedd dysgu a gallai gwneud hynny leihau eich siawns o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth hanfodol.

Er bod cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan ac yn ymddangos yn argyhoeddiadol, yn aml gall yr offer wneud camsyniadau. Dylech chi bob amser gwestiynu'r allbwn, defnyddio'ch barn ynghylch ei ddibynadwyedd, a gwirio'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

## CYFYNGIADAU DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL CYNHYRCHIOL

- Gall gynhyrchu gwybodaeth ffug (mae'n cael ei gyfeirio ato fel rhithweledigaethau)
- Gall gynhyrchu gwybodaeth sy'n rhagfarnllyd, yn annheg neu wedi'i stereoteipio gyda safbwyntiau Gorllewinol yn fwy amlwg
- Gall ddarparu atebion generig gyda diffyg gwir ddealltwriaeth
- Efallai nad ydy'r sylfaen wybodaeth yn gyfredol ac wedi'i diweddaru
- Ddim bob amser yn agored i wybodaeth newydd sy'n gwrth-ddweud ei gred gyfredol
- Gall gamddehongli'r hyn rydych chi'n gofyn iddo ei wneud a chael trafferth gyda chwestiynau cymhleth
- Gall gael trafferth deall ymadroddion poblogaidd a sut i roi eich sgwrs yn ei chyd-destun
- Ddim yn cyfeirio at ei ffynonellau nac yn eu dyfynnu
- Gallai delweddau sy'n cael eu creu dorri hawlfraint neu dresmasu ar hawliau unigol
- Gall manylion y ddelwedd fod o ansawdd isel

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## PWYSIG

**Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth sensitif, gan gynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol neu ddata, yn yr i offer AI.**

**Gwiriwch gyda'ch tiwtor bob amser a ydy cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI yn cael ei ganiatáu yn eich gwaith; gall amrywio rhwng pwnc a modiwl.**

**Ni ddylech chi ddefnyddio offer AI i gynhyrchu asesiad cyfan neu ran o asesiad y byddwch chi'n ei gyflwyno'n ddiweddarach fel eich gwaith eich hun*.**

**Mae gan lawer o offer AI gyfyngiadau oedran, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio offer sy'n briodol i'ch oedran neu fod gennych chi'r caniatâd priodol.**

**Peidiwch â defnyddio AI i gynhyrchu lluniau o bobl byw heb ganiatâd. Peidiwch â chreu lluniau a allent dorri hawlfraint chwaith.**

***Byddai hyn yn drosedd o dan Bolisi Llên-ladrad y Coleg.**

Os ydych chi'n defnyddio offer AI yn eich gwaith academaidd, darllenwch y canllawiau hyn ar sut i gydnabod a chyfeirio at hynny.

Ni allwch chi ddibynnu ar offer AI i gynhyrchu gwybodaeth gywir, a gallan nhw gynhyrchu ymatebion sy'n cynnwys gwybodaeth anghywir, wedi dyddio neu ragfarnllyd gan gynnwys rhagfarnau ac anghyfiawnderau ynghylch nodweddion gwarchodedig megis hil, oedran a chrefydd. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwerthuso unrhyw gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan offer AI yn feirniadol.

Gall offer AI gynhyrchu cyfeiriadau ffug at lyfrau ac erthyglau, felly gwiriwch y ffynhonnell wreiddiol bob amser am gywirdeb cyn eu defnyddio.

Mae offer AI yn newid yn gyflym. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n gwirio'r canllaw hwn yn aml oherwydd gall ein cyngor newid wrth i'r offer hyn ddatblygu.

## DEFNYDDIO AI I DDOD O HYD I WYBODAETH

Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn wahanol i ddefnyddio peiriannau chwilio traddodiadol fel Google. Mae peiriannau chwilio yn defnyddio'ch allweddeiriau i nodi ystod o ffynonellau i'w harchwilio, mae hyn yn cymryd amser i'w mireinio ac ymchwilio. Ar yr wyneb mae'n ymddangos bod deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn darparu ffynhonnell unigryw o wybodaeth sydd wedi'i chynhyrchu i chi yn unig, mae'n ymddangos ei bod wedi rhoi'r ateb i chi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad ydy deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn creu gwybodaeth yn y ffordd y gallech chi ei disgwyl ac yn gyfarwydd â hi. Mae'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chynhyrchu yn cael effaith fawr ar ddibynadwyedd ac awdurdod yr ymateb, a sut y gallech chi ei ddefnyddio yn ystod eich astudiaethau.

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## SUT I WERTHUSO'R YMATEBION SY'N CAEL EU CYNHYRCHU GAN AI YN FEIRNIADOL

**Wrth werthuso unrhyw wybodaeth, mae'n ddefnyddiol cofio'r prawf CRAAP:**

| CURRENCY CYFREDOLDEB | RELEVANCE PERTHNASEDD | ACCURACY CYWIRDEB | AUTHORITY AWDURDOD | PURPOSE DIBEN |
|---|---|---|---|---|
| Pryd gafodd y wybodaeth ei chreu neu ei hysgrifennu (ydy'r offer AI wedi'u diweddaru?) | Pa mor berthnasol ydy'r wybodaeth i'ch gwaith? | Ydy'r wybodaeth yn ddibynadwy, gwir a chywir? Ydy'r wybodaeth wedi'i chyfeirnodi a'i chadarnhau gyda data? | O ble mae'r wybodaeth yn dod? Pwy sydd wedi'i hysgrifennu ac ydyn nhw'n berson addas i gael y wybodaeth ganddyn nhw? | Pam mae'r wybodaeth ar gael? Oes yna dueddiadau, ydy'r wybodaeth yn ffeithiol? |

Os ydych chi'n cymhwyso'r prawf CRAAP i offer fel ChatGPT gallwch chi weld na fyddai'r allbwn AI yn cael ei ystyried yn ffynhonnell gredadwy o wybodaeth. Fodd bynnag, os ydych chi am ddefnyddio gwybodaeth sy'n dod o offer AI, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud y canlynol:

- Croeswiriwch yr ymateb gyda ffynonellau eraill a nodiadau gan eich dosbarth. Sut mae'r ymateb yn cyd-fynd â'ch gwybodaeth a'ch gwerthoedd chi? Peidiwch â derbyn yr ymateb ar yr olwg gyntaf. Mae'n iawn i'w gwestiynu.
- Gwiriwch fod unrhyw gyfeiriadau sy'n cael eu darparu yn rhai go iawn, ydy'r llyfr neu'r erthygl yn bodoli? Ydy'r manylion cyhoeddi'n gywir?
- Gwiriwch fod y cyfeiriadau yn cyfateb i'r wybodaeth yn yr ymateb ac nad ydyn nhw wedi'u camliwio.
- Gwiriwch eich bod chi'n gwybod sut i gyfeirio at yr ymateb AI os ydych chi'n bwriadu cynnwys unrhyw ran ohono yn eich gwaith.

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## SUT I ANNOG DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL CYNHYRCHIOL I FIREINIO'R YMATEBION

Rhaid i bromptiau ysgrifennu AI fod yn glir, yn gryno ac yn uniongyrchol i sicrhau bod yr offer yn deall y dasg yn gywir. Trwy gadw paramedrau penodol ar gyfer eich ymholiad mewn golwg fel eich nod, y pwnc a'r gynulleidfa gallwch fireinio'ch ymholiad trwy ddefnyddio allweddeiriau a manylion am sut rydych chi'n disgwyl i'r ymateb gael ei lunio.

Er bod offer AI yn cynhyrchu atebion fel pe bai'n cael sgwrs gyda chi, mae ei ddealltwriaeth o ymadroddion poblogaidd, ystyron a'u cyd-destun yn gyfyngedig.

I fynd i'r afael â'r her hon, rhaid i chi:

- Fod yn glir o ran eich cyfarwyddiadau.
- Aralleirio eich ymholiadau os nad ydych chi'n cael yr ymateb rydych chi ei eisiau. Bydd hyn hefyd yn helpu i hyfforddi'r offer i gyd-fynd â'ch arddull.
- Gofyn cwestiwn caeedig os ydych chi'n chwilio am ateb penodol.
- Cynnwys cymaint o fanylion perthnasol â phosibl yn eich ymholiad.



# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## BETH I'W GADW MEWN COF

### TASG

Mae angen i chi gynnwys un dasg fesul prompt. Er enghraifft, os ydych chi am ysgrifennu rhestr o'r brandiau dillad mwyaf poblogaidd gyda disgrifiadau byr a'u rhestru yn ôl poblogrwydd, mae angen i chi rannu'r ymholiad hwn yn ddau:

1. "Lluniwch restr o'r brandiau dillad mwyaf poblogaidd a'u graddio yn ôl poblogrwydd."
2. "Ysgrifennwch ddisgrifiad byr ar gyfer pob brand ar y rhestr."

Mae cyfarwyddiadau cam wrth gam a phwyntiau bwled yn helpu i ddadansoddi ceisiadau cymhleth.

### NOD

Byddwch yn benodol am nod eich prosiect. Ydych chi'n gobeithio creu post cyfryngau cymdeithasol, ateb e-bost neu ysgrifennu blog? Bydd gan bob math o gynnwys arddull arbennig. Bydd cadw nod mewn golwg yn sicrhau bod yr ymateb yn gywir.

### CYNULLEIDFA

I ba gynulleidfa mae'r ymateb?

### PWNC

Byddwch yn benodol am eich pwnc. Ydych chi eisiau ymateb sydd wedi'i dargedu at ddiwydiant neu gynnyrch penodol?

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## BETH I OFYN AMDANO

### LLAIS

Mae nodi llais ar gyfer yr ymateb yn helpu'r offer AI i ddefnyddio'r eirfa gywir o'i set ddata. Ydych chi am i'r ymateb gael ei ysgrifennu o safbwynt person penodol?

### GEIRIAU ALLWEDDOL

Byddwch yn benodol am yr hyn rydych chi ei eisiau o'r ymateb. Po fwyaf penodol ydych chi yn eich ymholiad, y mwyaf cywir fydd yr allbwn.

### FFORMAT

Ym mha fformat yr hoffech i'r ymateb gael ei gynhyrchu? Ydych chi eisiau rhestr fwledi neu gerdd?

### NAWS

Ym mha naws yr hoffech i'r ymateb gael ei ddychwelyd? Ydych chi am iddo fod yn gadarnhaol, yn ddifrifol neu'n broffesiynol?

### CYFRIF GEIRIAU

Gofynnwch i'r offer AI gadw at nifer penodol o eiriau. Os oes angen ateb cryno arnoch chi, nodwch yr hyd dymunol, fel "mewn un paragraff" neu "mewn 100 gair."

### CYFEIRIADAU

Gofynnwch am gyfeiriadau ar gyfer yr ymateb os oes angen gwybodaeth arnoch chi sy'n cael ei hategu gan ymchwil (cofiwch groeswirio'r rhain).

### DILYNIANT

Os nad ydych chi'n cael yr ymateb roeddech chi wedi'i obeithio, mireiniwch eich awgrymiadau ac arbrofwch gyda chwestiynau ac ymadroddion gwahanol.

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I GYNORTHWYO EICH SILLAFU A'CH GRAMADEG

Mae'n bwysig cofio bod deallusrwydd artiffisial yn arf i'ch helpu chi ac ni ddylid ei ddefnyddio i osgoi eich dysgu, gan gynnwys ei ddefnyddio i fireinio eich sillafu a'ch gramadeg. Mae rhai offer yn darparu gwiriadau syml sillafu a gramadeg, a fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol, ond gallai eraill yn newid eich gwaith ysgrifennu'n gyfan gwbl. Mae'n bwysig gweithio gyda'ch tiwtor i ddeall yr hyn sy'n dderbyniol a chyfyngiadau defnyddio deallusrwydd artiffisial ym mhob un o'ch aseiniadau. Yn gyffredinol, dylech osgoi offer sy'n newid strwythur eich gwaith ysgrifennu mewn modd sy'n golygu na fyddai'n cael ei ystyried fel eich geiriau eich hun mwyach.

Dyma sut rydym yn argymell eich bod yn defnyddio arfau deallusrwydd artiffisial i adolygu eich sillafu a'ch gramadeg.

| OFFER DERBYNIOL | GOFALUS | NID YW'N CAEL EI ARGYMELL |
|---|---|---|
| **Rhaglenni gwirio sillafu ar Google Docs a Word** | **Grammarly (Premiwm)**<br>Mae'r fersiwn hwn yn cynnig gwiriadau syml sillafu a gramadeg yn yr un modd â'r fersiwn am ddim, ond mae hefyd yn cynnig i ailysgrifennu brawddegau i fod yn eglur a chryno ac i weddu naws a chynulleidfaoedd gwahanol. Byddai hyn yn newid eich gwaith, ac efallai na fyddai'n dderbyniol. | **Grammarly (Cymorth Arbenigwyr)**<br>Dyma wasanaeth prawfddarllen gan olygwyr dynol, y byddwch yn talu amdano. |
| **Grammarly (fersiwn am ddim)**<br>Mae'r fersiwn am ddim o Grammarly yn cynnig gwiriadau syml sillafu a gramadeg ac yn eich galluogi i weld sut allai eich tôn swnio i'ch cynulleidfa fel y gallwch chi benderfynu a ydych chi am ei addasu. | | **Offer deallusrwydd artiffisial fel Chat GPT, Google Gemini, Co-Pilot**<br>Os ydych chi'n rhoi eich gwaith yn yr offer hyn ac yn gofyn iddynt wirio neu ailysgrifennu eich sillafu, eich gramadeg a'ch tôn, mae'n debygol o newid eich gwaith a gallai gael ei ystyried yn gamddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial. Gallai eich tiwtor ofyn i weld copi o'r fersiwn gwreiddiol. |

Dylid cyfeirio at bob defnydd o offer deallusrwydd artiffisial a'i gydnabod yn eich gwaith (gweler tudalennau 11-12).

# Uniondeb Academaidd

## SUT I GYFEIRIO AT OFFER AI YN EICH GWAITH

*Mae'r wybodaeth isod wedi'i haddasu o Cite Them Right, mae'r coleg yn tanysgrifio iddo a gallwch chi hefyd ei gyrchu trwy'r Hwb Myfyrwyr.*

Pan fyddwch chi'n defnyddio neu'n cyfeirio at wybodaeth wedi'i chreu gan offer AI rhaid i chi gydnabod hyn trwy ei ddyfynnu'n gywir. Gan fod y wybodaeth a gynhyrchir gan yr offer ond ar gael i chi, dylech ei dyfynnu fel cyfathrebiad personol.

Enghreifftiau o ddyfyniadau yn y testun:

> **Wrth ofyn am ddiffiniad o arfer academaidd da, mae OpenAI ChatGPT (2024) yn nodi ei fod yn "set o egwyddorion ac ymddygiadau sy'n hyrwyddo uniondeb, gonestrwydd ac ymddygiad moesegol mewn lleoliadau academaidd." Mae copi o'r ymateb hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.**

NEU

> **Mae arfer academaidd da yn "cyfrannu at ddatblygiad cymuned academaidd gadarnhaol a moesegol lle mae dysgu a gwybodaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu." (OpenAI ChatGPT, 2024). Mae copi o'r ymateb hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.**

Mae'n arfer academaidd da i gadw copi o drawsgrifiad eich cwestiynau ac ymatebion yr offer AI cynhyrchiol. Gall hwn fod yn sgrinlun, arbed ffeil y dudalen we neu gopïo a gludo'r cwestiwn a'r allbwn i ddogfen ar wahân. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cofnodi'r dyddiad wnaethoch chi ddefnyddio'r offer, yr awgrymiadau wnaethoch chi eu defnyddio (beth wnaethoch chi ofyn iddo ei wneud), a'r offer wnaethoch chi ei ddefnyddio. Efallai y bydd eich tiwtor yn gofyn i chi gynnwys y trawsgrifiadau hyn fel atodiad yn eich gwaith.

Mae'r wybodaeth y mae angen i chi ei chynnwys yn eich rhestr gyfeirio neu lyfryddiaeth fel a ganlyn:

- Enw'r offer awduro AI cynhyrchiol
- (Blwyddyn)
- Ymateb 'Enw'r offer awduro AI' i 'Enw'r person sy'n rhoi'r ymholiad'
- Dydd a mis y cafodd y cynnwys ei gynhyrchu

Enghraifft o gyfeirnod llyfryddiaeth yn defnyddio arddull Harvard:

> **Ymateb OpenAI ChatGPT (2024) ChatGPT i Joe Bloggs, 8 Ionawr**

# Uniondeb Academaidd

## CYDNABOD EICH DEFNYDD O OFFER AI YN EICH GWAITH

### Defnyddio offer AI i gynhyrchu cynnwys

Defnyddiwch y datganiad mwyaf priodol:

> Rwy'n cydnabod y defnydd o ChatGPT ( https://chat.openai.com/ ) (** neu enw offer a dolen AI arall**) i gynhyrchu deunyddiau ar gyfer ymchwil cefndirol ac astudiaeth annibynnol. Fodd bynnag, fy ngwaith i yw'r ysgrifen ac nid oes unrhyw gynnwys a gafodd ei gynhyrchu gan AI wedi'i gyflwyno fel fy ngwaith fy hun.

NEU

> Rwy'n cydnabod y defnydd o ChatGPT ( https://chat.openai.com/) (** neu enw'r offer AI a dolen**) i gynhyrchu deunyddiau rwyf wedi'u haddasu i'w cynnwys yn fy asesiad terfynol. Fodd bynnag, fy ngwaith i yw'r ysgrifen ac nid oes unrhyw gynnwys a gafodd ei gynhyrchu gan AI wedi'i gyflwyno fel fy ngwaith fy hun.

### Defnyddio offer AI i wella'ch gramadeg neu fireinio'ch ysgrifennu

> Rwy'n cydnabod y defnydd o ChatGPT ( https://chat.openai.com/ ) (** neu enw'r offer AI a dolen**) i wella fy ngramadeg / mireinio fy ysgrifennu yn fy asesiad. Fodd bynnag, fy ngwaith i yw'r ysgrifen ac nid oes unrhyw gynnwys a gafodd ei gynhyrchu gan AI wedi'i gyflwyno fel fy ngwaith fy hun.

**Os hoffech chi gael rhagor o gefnogaeth neu arweiniad ar ddefnyddio AI yn eich gwaith coleg, cysylltwch â llyfrgell@cambria.ac.uk i drefnu cyfarfod ag aelod o'n tîm.**